**Manifesto** of Welsh Wildlife Trusts

# Nature *matters*

Ymddiriedolaethau Natur **Cymru**
Wildlife Trusts **Wales**

## We all need nature

The next Senedd term (2026–30) must achieve Wales global commitment to protect and restore 30% of nature in Wales by 2030. Nature recovery is not only about wildlife. It is about people, communities, and our shared future.

Investing in **community-led, nature-based solutions** offers excellent value for money across government. Restoring natural habitats deliver multiple benefits: improving public health, strengthening food systems, increasing climate resilience, preventing floods, supporting education, building community cohesion, and boosting local economies.

## Nature at the centre of Government

A future Welsh Government must fully integrate nature into all policy and decision-making, recognising that every sector can impact and benefit from nature.

Wales has world-leading environmental legislation and has signed up to ambitious international commitments. What is urgently needed is delivery backed by investment, coordination, and political will.

**Nature's right to exist and flourish should be recognised along with every citizen's right to access nature.**

Without action at scale and pace, nature will continue to decline across Wales. The next Senedd term must be the turning point for nature's recovery so future generations can benefit from a nature-rich Wales.

## Recover nature by...

### Creating space

Protect and effectively manage 30% of land, freshwater, and sea for nature by 2030 by delivering an expanded and well-resourced network of protected area to deliverbenefits for both people and nature.

### Enabling farmers

Deliver an ambitious Sustainable Farming Scheme that works for people, nature, and climate by providing a sufficient multi-year budget for action for nature on farms.

### Strengthening planning

Adopt an ecosystem-based approach to infrastructure planning on land and at sea that stops development in designated sites and on irreplaceable habitats and prioritises nature-based solutions.

### Increasing investment

Scale up investment by unlocking long-term public and private finance for nature recovery on land and at sea and ensuring every Welsh Government portfolio includes investment in nature-based solutions.

### Stopping pollution

Deliver a coordinated, cross-sector approach to cut domestic and agricultural pesticide use by at least two-thirds by 2030. Strengthen monitoring, enforcement, and penalties for agriculture runoff and sewerage that is polluting our rivers.

### Green prescribing

Recognise and invest in nature's ability to prevent illness and improve mental health by creating a Welsh 'Natural Health Service' approach through funding community-based health initiatives that support green and social prescribing.

**wtwales.org**

Copyright © Royal Society of Wildlife Trusts, Wildlife Trusts Wales 2026.
All Rights Reserved. Registered Charity Number 207238.

**Maniffesto** yr Ymddiriedolaethau Natur Cymru

# Mae natur yn *hanfodol*

Ymddiriedolaethau Natur **Cymru**
Wildlife Trusts **Wales**

## Mae angen byd natur ar bob un ohonom ni

Mae rhaid i dymor nesaf y Senedd (2026–2030) sicrhau gwarchodaeth ac adferiad byd natur yng Nghymru. Nid dim ond bioamrywiaeth yw adferiad byd natur. Mae'n ymwneud â phobl, cymunedau a'n dyfodol ni i gyd.

Mae buddsoddi mewn **atebion sy'n seiliedig ar natur ac sy'n cael eu harwain gan y gymuned** yn cynnig gwerth rhagorol am arian ar draws y llywodraeth. Mae'r atebion hyn yn darparu manteision niferus: gwella iechyd y cyhoedd, cryfhau systemau bwyd, cynyddu gwydnwch hinsawdd, atal llifogydd, cefnogi addysg, meithrin cydlyniant cymunedol a hybu economïau lleol.

## Natur yn Ganolog yn y Llywodraeth

Mae rhaid i Lywodraeth Cymru yn y dyfodol integreiddio byd natur yn llawn i bob polisi a phenderfyniad, gan gydnabod y gall pob sector effeithio ar fyd natur ac elwa ohono.

Mae gan Gymru ddeddfwriaeth amgylcheddol flaenllaw yn y byd ac mae wedi ymrwymo i ymrwymiadau rhyngwladol uchelgeisiol. Yr hyn sydd ei angen ar frys yw cyflawni wedi'i gefnogi gan fuddsoddiad, cydlynu ac ewyllys wleidyddol.

**Dylid cydnabod hawl byd natur i fodoli a ffynnu ynghyd â hawl pob dinesydd i gael mynediad at fyd natur.**

Heb weithredu ar raddfa fawr ac yn gyflym, bydd byd natur yn parhau i ddirywio ledled Cymru. Rhaid i dymor nesaf y Senedd fod yn drobwynt ar gyfer adferiad byd natur fel bod cenedlaethau'r dyfodol yn gallu elwa o Gymru sy'n gyfoethog o ran natur.

## Adfer Natur drwy...

### Greu lle

Gwarchod a rheoli 30% o dir, dŵr croyw a môr yn effeithiol er budd natur erbyn 2030 drwy ddarparu rhwydwaith o ardaloedd gwarchodedig i sicrhau manteision i bobl a natur.

### Alluogi ffermwyr

Cyflawni Cynllun Ffermio Cynaliadwy sy'n gweithio i bobl, natur a'r hinsawdd drwy ddarparu cyllideb ddigonol ac amlflwyddyn fel bod modd cefnogi pob ffermwr i drawsnewid i arferion adfywiol.

### Gryfhau cynllunio

Mabwysiadu dull strategol, gofodol o gynllunio seilwaith ar dir ac ar y môr sy'n stopio datblygu mewn safleoedd dynodedig ac ar gynefinoedd nad oes modd eu hadnewyddu ac yn blaenoriaethu atebion sy'n seiliedig ar natur.

### Gynyddu buddsoddiad

Cynyddu buddsoddiad ac adnoddau drwy ddatgloi cyllid cyhoeddus a phreifat hirdymor ar gyfer adferiad byd natur ar dir ac yn y môr a sicrhau bod pob portffolio gan Lywodraeth Cymru yn cynnwys buddsoddiad pwrpasol mewn atebion sy'n seiliedig ar natur.

### Atal llygredd

Cyflawni dull cydlynol, traws-sector o leihau llygredd niweidiol drwy leihau defnydd o blaladdwyr domestig ac amaethyddol ddwy ran o dair o leiaf erbyn 2030 a chryfhau monitro, gorfodi a chosbau am dorri rheolau gan gwmnïau.

### Bresgripsiynau gwyrdd

Cydnabod a buddsoddi mewn byd natur fel sylfaen iechyd y cyhoedd drwy greu 'Gwasanaeth Iechyd Naturiol' Cymru a chyllido mentrau iechyd cymunedol sy'n cefnogi presgripsiynau gwyrdd a chymdeithasol.

**wtwales.org**

Hawlfraint © Cymdeithas Frenhinol Ymddiriedolaethau Natur, Ymddiriedolaethau Natur Cymru 2026. Cedwir Pob Hawl. Rhif Elusen Gofrestredig 207238.